



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar ddarpariaeth addysg bellach

**Coleg Caerdydd a'r Fro
Campws Canol y Ddinas
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn â Choleg Caerdydd a'r Fro

Sefydlwyd Coleg Caerdydd a'r Fro ym mis Awst 2011 yn dilyn uno Coleg Y Barri a Choleg Glan Hafren. Mae'n darparu addysg bellach mewn wyth lleoliad rhwng Trowbridge yn Nwyrain Caerdydd a'r Rhws ym Mro Morgannwg. Agorwyd campws y coleg yng nghanol dinas Caerdydd ym mis Medi 2015 a chafodd ei ymestyn yn 2018.

Mae gan y coleg oddeutu 9,000 o ddysgwyr, y mae tua 5,000 ohonynt yn astudio cyrsiau addysg bellach amser llawn. Mae chwe deg naw y cant o'r prif gymwysterau y mae dysgwyr yn eu hastudio yn y coleg yn rhai galwedigaethol, gyda 31% ohonynt yn academaidd. Mae cyrsiau'r coleg yn amrywio o lefel mynediad i lefel 5 ac mae ei ddarpariaeth yn cwmpasu bron pob un o feysydd pwnc y sector. Y meysydd sy'n cyfrif am gyfran fwyaf y ddarpariaeth yw'r celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi; iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal; a gwyddoniaeth a mathemateg.

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn gwasanaethu rhanbarth amrywiol sy'n cynnwys ardaloedd o amddifadedd sylweddol. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn byw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, fel y dangosir gan fynegai amddifadedd lluosog Cymru. Nid yw tri deg y cant o ddysgwyr y coleg yn siarad Saesneg fel eu mamiaith. Mae tua 30% o boblogaeth y coleg yn ddysgwyr croenddu, Asiaidd neu'n ddysgwyr ethnig lleiafrifol.

Ar gyfer addysg bellach, mae gan y coleg drosiant blynyddol o £56 miliwn, ac mae'n cyflogi dros 600 o staff. Mae'r coleg ei hun yn rhan o Grŵp ehangach Coleg Caerdydd a'r Fro, sy'n cynnwys darparwyr mawr dysgu yn y gwaith.

Crynodeb

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn canolbwyntio'n fawr ar ddiwallu anghenion addysg, hyfforddiant a busnes y rhanbarth. Mae'r coleg yn rhoi cefnogaeth gref i grwpiau cymunedol lleol, ac yn llwyddo i ymgysylltu â dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd mewn addysg a hyfforddiant. Mae arweinwyr wedi mabwysiadu ymagwedd glir a strategol at ddarpariaeth er mwyn datblygu dysgwyr medrus a chyflogadwy.

Mae'r coleg yn darparu ystod eang o gyrsiau a gweithgareddau cyfoethogi sydd wedi'u teilwra'n dda i anghenion dysgwyr, y gymuned a chyflogwyr. Mae'r coleg yn cynorthwyo dysgwyr yn dda, yn enwedig y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol a nifer fach iawn y dysgwyr o oedran ysgol.

Mae llawer o ddysgwyr o ystod amrywiol o gefndiroedd yn gwneud cynnydd da yn y coleg, ac mae cyfran uchel o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau byr, medrau hanfodol a chymwysterau TGAU yn llwyddiannus. Fodd bynnag, bu cyfran y dysgwyr sy'n llwyddo i gwblhau eu prif gymwysterau islaw cymaryddion cenedlaethol am ddwy o'r tair blynedd ddiwethaf. Mae llawer o ddysgwyr yn ymgymryd yn dda ag ystod helaeth o gyfleoedd yn gysylltiedig â gwaith. Trwy'r rhain, maent yn datblygu medrau ac ymddygiadau gwerthfawr sy'n cefnogi eu dyheadau gyrfa yn dda.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Rhagorol
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- A1 Gwella deilliannau prif gymhwyster dysgwyr
- A2 Gwella ansawdd yr addysgu fel bod pob athro yn ennyn a herio pob dysgwr i gyflawni ei lawn botensial
- A3 Sicrhau bod pob un o'r dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ac yn ennill cymwysterau perthnasol
- A4 Cryfhau arferion hunanwerthuso i lywio cynllunio ar gyfer gwella

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â datblygu proffesiynoldeb a medrau arwain dysgwyr trwy brofiadau cyfoethogi a phrofiadau gwaith go iawn.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Mae pobl o ystod amrywiol o gefndiroedd yn ymgymryd yn llwyddiannus â chyfleoedd dysgu a gynigir trwy ddarpariaeth eang y coleg. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn gwneud cynnydd cryf o gymharu â'u manau cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn mewn gwersi, gan gynhyrchu gwaith o safon addas. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf. Mae llawer o ddysgwyr yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda, ac yn cymhwyso hyn i gyd-destunau newydd yn effeithiol. Er enghraifft, fel rhan o'u gwaith ar gyfer y dystysgrif her medrau, gall dysgwyr lefel 3 drafod ac ystyried yn ofalus y data sydd ei angen i gefnogi eu hymchwil. Mae dysgwyr cerddoriaeth lefel 2 yn gwneud cynnydd cyflym o ran datblygu eu gwybodaeth am theori, a defnyddiant y wybodaeth hon i ddatblygu eu medrau ymarferol yn dda. Ar draws y coleg, mae llawer o ddysgwyr yn caffael gwybodaeth a medrau newydd yn llwyddiannus. Mae ychydig o ddysgwyr yn dangos medrau dadansoddol cryf a dealltwriaeth fanwl o ystod o gysyniadau pwysig. Er enghraifft, mae dysgwyr cemeg UG yn defnyddio eu gwybodaeth am sbectrometreg màs i bennu strwythur atomig yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr yn ddigon ymwybodol o'r cynnydd y maent yn ei wneud tuag at ennill eu prif gymwysterau, a'r hyn y mae angen iddynt ei wella.

Mae llawer o ddysgwyr galwedigaethol yn datblygu medrau ymarferol gwerthfawr. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn trin gwallt a cholur theatrig yn dangos creadigrwydd cryf ac yn cynhyrchu gwaith ymarferol o safon gyson uchel. Mae bron pob un o'r dysgwyr arlwygo a phobi yn gweithio'n fedrus ac yn asesu eu gwaith ymarferol eu hunain yn feirniadol mewn ffordd effeithiol.

Ar draws ystod o feysydd galwedigaethol, mae llawer o ddysgwyr yn datrys problemau ac yn cymhwyso eu medrau rhif yn dda. Er enghraifft, mae dysgwyr yn cyfrifo cyfran a graddfa yn gywir ar gyfer darluniadau dylunio, ac yn gwneud mesuriadau manwl yn hyderus mewn sesiynau teilio.

Mae llawer o ddysgwyr yn ysgrifennu'n dda at ystod o ddibenion. Maent yn strwythuro eu gwaith yn glir gan ddefnyddio sillafu, atalnodi a gramadeg sicr. Mae llawer o ddysgwyr yn gwella eu medrau siarad a gwrando yn llwyddiannus. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn ymateb yn dda i gwestiynau athrawon ac yn rhoi atebion huawdl. Maent yn mynd ati i gymryd rhan mewn trafodaethau ac yn esbonio eu syniadau'n glir. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn amharod i gyfrannu at drafodaethau grŵp.

Mae llawer o ddysgwyr ar gyrsiau Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill (SSIE) yn gwneud cynnydd sylweddol yn eu medrau llythrennedd Saesneg. Mae lleiafrif o ddysgwyr SSIE yn dangos safon uchel o Saesneg llafar y maent yn ei defnyddio i fynegi eu barn yn hyderus. Mae ychydig o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn mynd ati i ddatblygu eu defnydd o'r iaith, a chânt eu cefnogi'n dda gan eu hathrawon. Er enghraifft, mae dysgwyr harddwch yn rhoi cyflwyniadau dwyieithog mewn digwyddiadau gyda'r nos, ac mae dysgwyr gofal iechyd yn mynd ar brofiad gwaith ar ward ysbyty cyfrwng Cymraeg. Mewn ychydig iawn o sesiynau, mae dysgwyr sy'n

siarad Cymraeg yn helpu eu cyfoedion i gaffael terminoleg allweddol ac ymarfer eu hynganiad. Fodd bynnag, at ei gilydd, ychydig iawn o ddysgwyr yn unig sy'n defnyddio eu medrau Cymraeg yn rheolaidd mewn gwersi.

Mae mwyafrif o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn cystadlaethau medrau ar draws ystod eang o ddisgyblaethau galwedigaethol ac academaidd. Mae ychydig iawn ohonynt yn arddangos gwybodaeth a medrau dadansoddol ac ymarferol eithriadol o dda, ac yn mynd ymlaen i gwblhau ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

Mewn iechyd, gwasanaethau cyhoeddus a gofal, mae dysgwyr yn llwyddo i gwblhau eu prif gymwysterau ar gyfraddau sy'n gyson uwch na'r cymaryddion cenedlaethol. At ei gilydd, mae cyfran uchel o ddysgwyr yn cwblhau eu cyrsiau byr, eu medrau hanfodol a'u cymwysterau TGAU yn llwyddiannus. Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd ddiwethaf hyd at 2017, bu cyfran y dysgwyr sy'n cwblhau eu prif gymwysterau'n llwyddiannus islaw cymaryddion cenedlaethol ar draws mwyafrif y meysydd dysgu. Mae cyfran y dysgwyr sy'n cwblhau eu cyrsiau diploma lefel 3 a lefel 2 yn llwyddiannus wedi gostwng dros y tair blynedd ddiwethaf hyd at 2017. Bu'r cyfran o ddysgwyr sy'n cwblhau eu cyrsiau UG a Safon Uwch yn llwyddiannus, islaw y cymaryddion cenedlaethol am y tair blynedd ddiwethaf hyd at 2017. Pan fydd dysgwyr yn astudio am gymwysterau graddedig, mae cryfder cyrhaeddiad graddau gan ddysgwyr yn amrywio gormod ar draws y coleg.

Mae'r cyfraddau cwblhad llwyddiannus ar gyfer prif gymwysterau, gan gynnwys diplomâu cenedlaethol, cyrsiau UG a Safon Uwch wedi gwella, ag ar gyfer 2017-2018 maent yn unol â'r cymaryddion cenedlaethol.

Mae dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, dysgwyr ag anableddau a dysgwyr o'r rhan fwyaf o grwpiau ethnig lleiafrifol yn ennill eu cymwysterau yn llwyddiannus, yn unol â pherfformiad cyffredinol dysgwyr yn y coleg.

Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau gwaith ac ymddygiadau hynod effeithiol sy'n cefnogi eu dyheadau gyrfa. Maent yn ymgymryd yn frwdfrydig ag ystod helaeth o gyfleoedd yn gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys tasgau 'briff byw' a ddatblygwyd ar y cyd â chyflogwyr. Mae llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r effaith a gaiff gweithgareddau yn gysylltiedig â gwaith ar eu medrau cyflogadwyedd. Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn lleoliadau allanol yn datblygu medrau datrys problemau sy'n gysylltiedig â gwaith a gwydnwch cryf iawn sy'n cefnogi eu dilyniant i gyflogaeth.

Mae mwyafrif o ddysgwyr yn datblygu medrau arwain gwerthfawr trwy diwtora cyfoedion, cymryd rhan mewn gweithgareddau fel prosiectau menter, neu drwy ymgymryd â rolau arwain fel hyrwyddwr TG. Mae ychydig o ddysgwyr yn dangos medrau arwain eithriadol o dda trwy gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau gwerth chweil. Mae'r rhain yn cynnwys ymgymryd â rolau llysgennad myfyrwyr a chynrychiolydd cwrs, yn ogystal â chyfleoedd cyfoethogi ehangach. Trwy'r gweithgareddau hyn, maent yn datblygu hyder, medrau gwneud penderfyniadau a medrau cyflogadwyedd ehangach.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn falch i fod yn fyfyrwyr yn y coleg. Mae dysgwyr yn cymryd rôl flaenllaw mewn hyrwyddo lles dysgwyr eraill trwy ystod o fentrau, fel yr

wythnos les, yr ymgyrch iechyd meddwl a diwrnodau 'yma i helpu'. Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi, a'u bod yn cael cyfleoedd ystyrion i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd trwy ddewis cynrychiolwyr cwrs ac etholiadau ar gyfer Senedd leuencid Cymru. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddysgwyr yn sicr ynglŷn â sut mae'r coleg yn gwrandao ar eu pryderon, ac yn gweithredu yn unol â nhw.

Mae llawer o ddysgwyr yn mwynhau cymryd rhan mewn profiadau newydd a heriol yn fawr. Trwy gymryd rhan mewn ystod eang o gystadlaethau medrau a gweithgareddau cyfoethogi, mae mwyafrif y dysgwyr yn datblygu penderfynoldeb, cymwysoldeb a phroffesiynoldeb. Er enghraifft, mae dysgwyr medrau byw yn annibynnol yn gwella eu hunan-barch a'u huchelgais trwy ymgysylltiad buddiol â rhaglen profiad gwaith bwrpasol y coleg, sef 'Prosiect Search'. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r modd y mae'r profiadau hyn yn ehangu eu gorwelion ac yn helpu datblygu eu parodrwydd ar gyfer dysgu ymhellach a gwaith.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth aflonyddwch yn y coleg. Maent yn gwybod sut i gael cymorth ag unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Maent yn hyderus fod arferion ar draws y coleg yn effeithiol o ran cefnogi eu lles. Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth glir o bwysigrwydd ffordd iach o fyw, ac maent yn ymwybodol o opsiynau bwyta'n iach sydd ar gael ym manau gwerthu bwyd y coleg. Mae ychydig o ddysgwyr wedi cyfrannu at weithgareddau sy'n gwella ystod yr opsiynau bwyta'n iach a gynigir, fel cymryd rhan mewn sesiynau blasu.

Yn ystod eu cyfnod yn y coleg, mae llawer o ddysgwyr yn datblygu dealltwriaeth fuddiol o faterion moesegol, cyffredinol a moesol. Maent yn hynod gefnogol o'i gilydd ac yn parchu amrywiaeth. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ethos cynhwysol y coleg. Mae llawer o ddysgwyr yn ymgymryd yn gadarnhaol â gweithgareddau ar draws y coleg sy'n eu galluogi i archwilio materion moesol mewn ffordd sensitif a chynhwysol. Er enghraifft, galluogodd y gynhadledd pobl lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol (LGBT) i ddysgwyr ystyried materion pwysig mewn ffordd cefnogol. Mae mwyafrif y dysgwyr yn cymryd rhan mewn ystod amrywiol o weithgareddau cymunedol ac elusennol sy'n adlewyrchu anghenion lleol. Er enghraifft, mae dysgwyr SSIE yn trefnu casgliadau bwyd ar gyfer banciau bwyd lleol. Mae dysgwyr gwallt a harddwch yn darparu triniaethau ar gyfer cleifion mewn ysbyty lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n bwrpasol, gan ddefnyddio adnoddau dysgu'n effeithiol. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn dangos moeseg waith eithriadol o dda. Er enghraifft, mae dysgwyr ar gyrsiau gwallt a harddwch dysgu carlam yn dangos ymdrech a phenderfynoldeb eithriadol o dda ac yn datblygu medrau proffesiynol cryf iawn.

Mae ychydig o ddysgwyr ar draws y coleg, gan gynnwys y rheiny sy'n dilyn rhaglenni fel SSIE, yn dangos penderfynoldeb cryf i lwyddo, hyd yn oed pan fyddant yn wynebu heriau sylweddol. Mae dysgwyr prentisiaeth iau, 14 i 16 oed, a oedd mewn perygl o ymddieithrio o addysg, yn datblygu eu hunan-barch, eu hyder a'u medrau ehangach yn dda. Mae hyn yn eu helpu i symud ymlaen yn llwyddiannus i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae gan y coleg ymagwedd glir a strategol iawn at ei ddarpariaeth, gyda'r nod o ddatblygu dysgwyr medrus a chyflogadwy. Adlewyrchir y nod hwn yn dda iawn ym mhrosesau cynllunio a datblygu cwricwlwm y coleg, sy'n defnyddio cysylltiadau cryf gyda chyflogwyr, defnydd manwl o wybodaeth y farchnad lafur a chysylltiad agos â'i gymuned.

O ganlyniad i'r ymagwedd hon, ceir ystod eang o gyrsgiau sydd wedi'u teilwra'n dda yn unol ag anghenion dysgwyr, y gymuned a chyflogwyr. Mae llawer o gyrsgiau'n cynnig profiad gwaith defnyddiol, naill ai gyda chyflogwyr, yng nghyfleusterau'r coleg ei hun neu drwy friffiau byw. Er enghraifft, mae partneriaethau â'r diwydiant cyfryngau yn rhoi profiadau gwerth chweil i ddysgwyr mewn recordio cerddoriaeth fyw ar gyfer y radio. Mae dysgwyr yn elwa ar brofiadau defnyddiol sy'n canolbwyntio ar waith; er enghraifft, mae dysgwyr technoleg gwybodaeth yn datblygu cymhwysiad ffôn symudol i gael at systemau'r coleg. Mewn lletygarwch ac arlwyo, mae cogyddion proffesiynol yn cynnig dosbarthiadau meistr i ddysgwyr yn nhŷ bwyta'r coleg. Mewn gwallt a harddwch, mae steilwyr a therapyddion o westeiau lleol yn gweithio gyda dysgwyr yn salon y coleg i wella eu medrau, a chynyddu eu hymwybyddiaeth o amgylchedd masnachol.

Mae'r coleg wedi gweithio'n dda gyda phartneriaid lleol i ad-drefnu darpariaeth SSIE ar gyfer y gymuned. O ganlyniad, mae amseroedd aros ar gyfer cofrestru ar gyrsgiau SSIE wedi gostwng yn sylweddol.

Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bwnc a phrofiad cyfoes. Mewn sesiynau ymarferol a theori, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod o adnoddau, gan gynnwys adnoddau electronig, yn dda. Mewn sesiynau galwedigaethol ymarferol, mae llawer o athrawon yn herio dysgwyr i ddatblygu medrau cyflogadwyedd sy'n benodol i ddiwydiant a medrau cyflogadwyedd ehangach yn dda. Mae llawer o athrawon yn cysylltu elfennau galwedigaethol a theori yn effeithiol. Er enghraifft, mewn gwasanaethau cyhoeddus, mae athrawon yn strwythuro gwersi'n ofalus er mwyn i ddysgwyr allu ymarfer a chymhwyso medrau arwain mewn senarios hyfforddiant ffitrwydd realistig.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio eu gwersi'n dda, gan alluogi dysgwyr i adeiladu ar eu gwybodaeth flaenorol, a datblygu eu medrau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae rhediad y dysgu'n rhy araf, ac mae ychydig o ddysgwyr yn oddefgar yn eu dysgu. Mae mwyafrif o athrawon yn gwneud defnydd da o holi i asesu gwybodaeth a monitro cynnydd dysgwyr. Nid yw lleiafrif o athrawon yn defnyddio holi'n ddigon da i ymestyn a herio dysgwyr neu hyrwyddo dealltwriaeth ddyfnach.

Mae llawer o athrawon yn esbonio tasgau a thestunau'n dda. Maent yn ymgysylltu â dysgwyr ac yn eu cymell yn dda, trwy ddefnyddio achosion cyfreithiol cyfoes i egluro newidiadau yn y gyfraith. Mewn SSIE, mae bron pob un o'r athrawon yn darparu cymorth cadarn i ddysgwyr o ran datblygu eu medrau Saesneg.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth llafar gwerthfawr i ddysgwyr, ac mae mwyafrif ohonynt yn gosod targedau defnyddiol ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, pan fydd athrawon yn defnyddio adborth ysgrifenedig, nid yw lleiafrif ohonynt yn rhoi arweiniad effeithiol i ddysgwyr i'w helpu i wella eu gwaith. Ni chaiff lleiafrif o ddysgwyr eu cynnwys yn ddigonol mewn gosod na monitro eu targedau eu hunain, ac o ganlyniad, nid yw'r dysgwyr hyn yn glir ynglŷn â'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella.

Ychydig o ddysgwyr yn unig sy'n ymwybodol o dargedau tymor byr i wella eu medrau llythrennedd neu rifedd, ac nid yw athrawon yn monitro cynnydd yn erbyn targedau o'r fath yn ddigon rheolaidd.

Mae gan y coleg strategaeth glir ar gyfer sut i ddatblygu a gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Mae'r coleg yn gweithio'n dda gyda phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi'r strategaeth hon a darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a defnyddio eu medrau Cymraeg, er enghraifft trwy gynnal cynadleddau pwnc dwyieithog ar gyfer dysgwyr. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae nifer y gweithgareddau a wneir yn ddwyieithog neu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu ac mae'r coleg yn cynnig cyrsiau 'laith ar Waith' defnyddiol i ddysgwyr mewn meysydd dethol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, ychydig o athrawon yn unig sy'n mynd ati i gynllunio cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg yn rheolaidd trwy eu rhaglenni galwedigaethol.

Mae gan y coleg lwybrau cwricwlwm priodol ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno ailsefyll cymwysterau mathemateg a Saesneg TGAU, neu ennill cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Mewn dosbarthiadau ailsefyll pynciau TGAU, mae llawer o athrawon yn strwythuro gwersi'n briodol, ond mewn ychydig o wersi, mae'r addysgu'n symud yn rhy gyflym i bob dysgwr allu dal i fyny. Mae'r coleg yn cynnig cwrs mathemateg TGAU defnyddiol yn benodol ar gyfer y dysgwyr SSIE hynny sydd â medrau mathemategol cymharol gryf ond nad oes ganddynt gymhwyster mathemateg.

Mewn rhaglenni galwedigaethol, mae mwyafrif o athrawon yn darparu cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr ymarfer a datblygu medrau digidol. Mewn dosbarthiadau galwedigaethol neu drwy friffiau byw, mae mwyafrif o athrawon yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddysgwyr ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei gynllunio'n systematig, ac o ganlyniad, mae cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer y medrau hyn yn rhy anghyson. Nid oes digon o athrawon yn rhoi adborth defnyddiol ar sut gall dysgwyr wella eu medrau llythrennedd a rhifedd. Nid yw'r coleg yn gwerthuso'r graddau y mae dysgwyr yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol trwy eu rhaglenni galwedigaethol yn ddigon da.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae gan y coleg drefniadau effeithiol i helpu darpar ddysgwyr ddeall y cyfleoedd a gynigir gan y coleg a sut bydd eu hanghenion cymorth yn cael eu diwallu. Er enghraifft, mae athrawon wedi sefydlu dosbarthiadau dynodedig ar gyfer dysgwyr SSIE sydd â chlyw cyfyngedig.

Mae staff wedi datblygu cysylltiadau cryf iawn gydag ysgolion, gan eu galluogi i adnabod yn gynnar unrhyw ddysgwyr sydd â datganiadau o angen addysgol arbennig sy'n debygol o fynd ymlaen i goleg. Gwnânt ddefnydd gofalus o'r wybodaeth a gânt am ddysgwyr er mwyn gwneud trefniadau arbenigol, ac maent yn darparu technoleg gynorthwyol i helpu dysgwyr, gan gynnwys y rheiny sydd ag anghenion cymhleth iawn, i ymgynffwrdd a datblygu yn y coleg. Er enghraifft, mae'r coleg wedi prynu cadair wedi'i theilwra ar gyfer un dysgwr, ac mae'n darparu gweithiwr cymorth dynodedig i helpu dysgwr arall y mae ei symudedd yn gyfyngedig. Mae hefyd yn darparu dehonglydd iaith arwyddion i gynorthwyo dysgwr â chlyw

cyfyngedig mewn sesiynau modurol. Mae canolfannau arbenigol yn cynnig adnoddau dysgu a chymorth da i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae staff yn olrhain cynnydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn fanwl bob wythnos. Mae hyn yn galluogi'r coleg i ymateb yn brydlon i anghenion cymorth newidiol y dysgwyr hyn.

Mae'r canolfannau lles ar draws y coleg yn cynnig ystod eang o wasanaethau gwerth chweil a hygyrch i gynorthwyo pob dysgwr. Mae staff addysgu a staff lles yn cyfathrebu ac yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i ddarparu cymorth effeithiol i ddysgwyr.

Mae staff yn darparu cymorth effeithiol i'r nifer fach iawn o ddysgwyr o oedran ysgol yn y coleg, yr oedd bron pob un ohonynt mewn perygl o ymddieithrio o addysg. Daw llawer o'r dysgwyr hyn o ardaloedd o amddifadedd. Mae bron pob un o'r staff yn rhoi ystyriaeth dda i anghenion datblygiad unigol y dysgwyr hyn wrth gynllunio sesiynau, gan eu galluogi i ffynnu o fewn eu cyrsiau.

Mae gwaith y coleg gyda grwpiau cymunedol lleol yn hynod effeithiol. Mae hyn yn galluogi staff i ymgysylltu â dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd. Er enghraifft, mae'r coleg yn cyflwyno darpariaeth ddynodedig o fewn cymunedau ethnig lleiafrifol. Mae'n darparu sesiynau buddiol i wella medrau rhifedd rhieni er mwyn iddynt allu cynorthwyo eu plant yn well. Mae'r coleg wedi cryfhau ei weithdrefnau derbyn i nodi gofalwyr ifanc yn well. Mae wedi datblygu cysylltiadau gwerth chweil gyda grwpiau cymunedol i helpu gofalwyr ifanc i elwa ar gymorth targedig.

Caiff llawer o ddysgwyr gyfleoedd i ymgymryd ag ystod gynhwysfawr o weithgareddau cyfoethogi personol perthnasol. Mae dysgwyr mwy abl a thalentog yn elwa ar weithgareddau cyfoethogi ac ymestyn heriol. Mae'r gweithgareddau hyn yn eu galluogi i ehangu eu profiad ac ennill medrau arwain. Mae dysgwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol yn manteisio'n dda ar weithgareddau cyfoethogi. Er enghraifft, mae tua chwarter o gyfranogwyr y coleg yn rhaglen Seren ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog yn ddysgwyr croenddu, Asiaidd neu ethnig leiafrifol. Mae llawer o ddysgwyr ar gyrsiau Career Ready yn elwa ar gyflogaeth yn gynnar, ac mae tîm 'gyrfaoedd a syniadau' y coleg yn darparu ystod eang o weithgareddau defnyddiol i gynorthwyo dysgwyr.

Mae mwyafrif o ddysgwyr a staff yn gwneud defnydd rheolaidd o'r system bresenoldeb, gosod targedau ac olrhain ar-lein. Mae lleiafrif o staff yn gwneud defnydd llawn ohoni i yrru cynnydd dysgwyr ymlaen. Fodd bynnag, ychydig o ddysgwyr yn unig sy'n ymwybodol o'i manteision datblygiad personol posibl y tu hwnt i fonitro presenoldeb. Mae ymagwedd y coleg at osod targedau ar gyfer datblygiad personol dysgwyr, ac ansawdd hyn, yn anghyson.

Mae rhaglen e-diwtorial y coleg yn gynhwysfawr o ran ei hymdriniaeth â ffordd iach o fyw, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a datblygu gwerthoedd goddefgarwch a pharch. Fodd bynnag, lleiafrif o ddysgwyr yn unig sy'n cwblhau rhaglen e-diwtorial mewn modd amserol.

Mae'r coleg yn rheoli materion diogelu yn briodol. Mae testunau diogelu fel radicaleiddio yn rhan o raglen ymsefydlu a rhaglen diwtorial dysgwyr, ac fe'u trafodir gyda grwpiau cymunedol lleol. Fodd bynnag, nid yw dealltwriaeth tua hanner y dysgwyr o radicaleiddio wedi'i datblygu'n ddigonol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r coleg wedi diwygio'i strwythur uwch arweinyddiaeth i sicrhau rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir. Mae'r prif swyddog gweithredol, ynghyd â'r pennaeth, yn darparu arweinyddiaeth strategol effeithiol. Cânt eu cynorthwyo'n dda gan uwch arweinwyr sydd â gweledigaeth glir, sy'n canolbwyntio'n fawr ar ddiwallu anghenion y gymuned leol a'r ddinas o ran addysg, hyfforddiant a busnes. Cefnogir y weledigaeth hon gan gynllun strategol tair blynedd clir sy'n ategu diwylliant, ymddygiadau ac ethos y coleg yn dda.

Mae'r coleg wedi sefydlu trefniadau partneriaeth eithriadol o dda gydag ystod eang o randdeiliaid allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys cyflogwyr proffil uchel, awdurdodau lleol, ysgolion a grwpiau cymunedol. O ganlyniad, mae'r coleg yn allweddol o ran cefnogi twf economaidd a datblygiad medrau yn y rhanbarth, a chyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Mae uwch arweinwyr wedi gwneud newidiadau sylweddol i dîm arweinyddiaeth ganol y coleg, sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar berfformiad. Mae arweinwyr canol wedi cael hyfforddiant buddiol i'w helpu i ymgymryd â'u rolau'n fwy effeithiol. Er enghraifft, lle nad oedd adrannau'n perfformio'n dda yn y gorffennol, mae arweinwyr canol wedi mynd i'r afael â'r tanberfformio hwn.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswydd her, craffu a chymorth yn effeithiol. Mae'n adolygu cynnydd y coleg yn unol â'i risgiau allweddol, ei nodau a'i amcanion strategol yn drylwyr.

Ceir cyfathrebu cryf ar draws y coleg, ac mae arweinwyr a staff ar bob lefel yn cael diweddariadau rheolaidd a defnyddiol am ystod eang o faterion y coleg. Mae arweinwyr a staff yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd sy'n darparu cyfleoedd buddiol i rannu syniadau, arfer orau a chyfrannu at ddatblygiad strategol y coleg.

Mae gan y coleg brosesau priodol ar waith ar gyfer hunanwerthuso. Mae'r rhain yn ffurfio rhan o'r cylch ansawdd blynyddol, sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae gwerthusiadau llawer o adrannau yn dangos dealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd cyffredinol i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw hunanwerthuso ar draws y coleg yn defnyddio tystiolaeth o werthusiadau adrannol yn ddigon da. Mae cynlluniau datblygu ansawdd y coleg yn fanwl, ond nid ydynt yn cynnwys targedau penodol a mesuradwy i ysgogi gwelliant. Mae gan y coleg ddealltwriaeth gref o'i gryfderau, ond nid yw'n cydnabod effaith ychydig o feysydd i'w datblygu.

Mae gan y coleg ystod eang o arferion i gefnogi dysgu proffesiynol ei staff. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau datblygu gwerthfawr ar draws y coleg a rhaglenni wedi'u teilwra ar gyfer staff unigol. Mae'r coleg wedi nodi ei flaenoriaethau allweddol ar gyfer dysgu proffesiynol fel arweinyddiaeth, athrawon ysbrydoledig a chymorth busnes masnachol. Mae arweinwyr yn gwerthuso effaith eu gwaith datblygu staff yn briodol i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion busnes. Caiff pob un o'r staff arfarniad blynyddol, y nodir anghenion dysgu proffesiynol ynddo.

Mae uwch reolwyr yn dangos dealltwriaeth gref o gynllunio adnoddau, y pwysau cyllid sy'n wynebu'r coleg a chost darpariaeth. Dangosant ddealltwriaeth fanwl o bwysigrwydd prosesau rheoli risg, a defnyddiant y rhain yn effeithiol wrth reoli a gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd. Mae gan y coleg drefniadau cadarn i fonitro gwariant cyllideb ac incwm yn rheolaidd ar lefel adrannol.

Mae'r coleg wedi dangos y gallu i wneud cynnydd cryf iawn o ran cyflwyno'i strategaeth ystadau uchelgeisiol. Mae hyn wedi cynnwys gweithio mewn

partneriaeth â sefydliadau sector cyhoeddus a sector preifat fel ei gilydd i gyflawni buddsoddiadau cyfalaf sylweddol. O ganlyniad, mae'r coleg wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'w gyfleusterau a'i adnoddau ar gyfer dysgwyr, er enghraifft yn y campws yng nghanol y ddinas, Coleg Cymunedol y Dwyrain, a chyfleuster chwaraeon Lecwydd.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwysu gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwysu cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/02/2019